Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd

Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder

Cymdeithasol

D.Iau 17 Awst 2023

Annwyl Jenny,

**Testun: Cyflwyniad UKIM i Bwyllgor y CU ar Hawliau Pobl ag Anableddau**

Heddiw fe gyhoeddodd Mecanwaith Annibynnol y DU (UKIM)[1] – grŵp sy'n cynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD), Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC), Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon (ECNI) a Chomisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon (NIHRC) - adroddiad yn asesu hawliau pobl anabl ar draws y DU. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (y Pwyllgor) ym mis Gorffennaf, fel rhan o'r adolygiad o'i ymchwiliad i'r DU, a gynhelir y mis hwn.

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

Canfu ymchwiliad y Cenhedloedd Unedig, a gyhoeddwyd yn 2016, droseddau 'difrifol a systemig' o'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CRPD), a gwnaeth 11 o argymhellion ar gyfer gwelliant. Yn benodol, archwiliodd y Pwyllgor effeithiau diwygiadau lles ers 2010 ar hawliau pobl anabl i fyw'n annibynnol; gwaith a chyflogaeth; a safon byw ac amddiffyniad cymdeithasol.

Drwy gadarnhau'r CRPD, mae'r DU wedi'i rhwymo gan gyfraith ryngwladol i barchu, amddiffyn a chyflawni'r hawliau sydd ynddo. Y sefydliadau DU gyfan a'r sefydliadau datganoledig sy'n gyfrifol am weithredu cytuniadau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig.

Mae adroddiad UKIM yn asesu cynnydd yn erbyn 11 o argymhellion yr ymchwiliad ac yn dadansoddi camau gweithredu'r llywodraeth a'r cyd-destun yn ymwneud â hawliau anabledd ers 2016. Mae asesiadau UKIM yn dangos, er gwaethaf rhywfaint o gynnydd mewn rhai meysydd, y bu cynnydd cyfyngedig neu ddim cynnydd yn erbyn llawer o argymhellion. Un maes a amlygwyd yw'r diffyg cynnydd i wreiddio asesiadau effaith cronnol yn y broses o wneud penderfyniadau cyllidebol.



**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Mae adroddiad UKIM yn amlygu rhywfaint o gynnydd a wnaed o ran dull Llywodraeth Cymru o gydgynhyrchu â phobl anabl wrth ffurfio'r Tasglu Hawliau Anabledd.

Bydd yr adolygiad sydd i ddod yn gyfle i weithio i wella bywydau pobl anabl ar draws y DU. Byddem yn hapus i drafod y materion hyn, a'n hadroddiad, gyda chi pan fydd yn gyfleus i chi.

Yr eiddoch yn gywir,

**Parch. Ruth Coombs**

**Pennaeth Cymru**

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**